



Blackboard

## Sut mae gweithredu GDPR Blackboard yn cefnogi'n cleientiaid

Mae Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR) yr UE yn newid mawr. Mae Blackboard yn croesawu'r newid hwn. Mae preifatrwydd data yn bwysig ac rydym yn deall ei fod yn hawl dynol. Mae'r GDPR yn cryfhau hawliau unigolion a bydd yn arwain at well arferion preifatrwydd data. Bydd hyn o fudd i unigolion a sefydliadau gan y bydd yn gwella ymddiriedaeth rhyngddynt.

Rydym yn cyhoeddi'r ddogfen hon i roi trosolwg i'n cleientiaid o'r newidiadau a'r mythau o amgylch y GDPR, i esbonio ein dull gweithredu ac i roi manylion sut y bydd ein hymdrechion yn cefnogi'ch sefydliad. Rydym wedi canolbwyntio ar wybodaeth y credwn bydd yn fwyaf defnyddiol i chi. Felly, nid yw'r papur gwyn hwn yn ganllaw cynhwysfawr i'r GDPR.<sup>1</sup>

Mae'r GDPR yn dod â newidiadau sylweddol, ond yn Blackboard, gallwn adeiladu ar ein harferion preifatrwydd data cadarn presennol (e.e. ein hardystiad Privacy Shield yr UE-JDA). Rydym yn ystyried y GDPR yn gyfle i gryfhau'n harferion ymhellach. A byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y cleient a'ch cefnogi â'ch cydymffuriad â phreifatrwydd data.

*Mae'r deunyddiau hyn wedi'u paratoi at ddibenion gwytodaeth yn unig ac nid ydynt yn gyngor cyfreithiol. Ceisiwch gyngor eich cyfreithwyr mewnol neu allanol am weithredu'r GDPR yn eich sefydliad a'ch cwestiynau cyfreithiol cysylltiedig.*

# CYNNWYS

<b>GDPR - BETH SYDD ANGEN I CHI WYBOD</b>	<b>3</b>	
Pam fod cyfraith newydd?	3	
Beth sy'n newydd?	4	
Beth sy'n aros yr un peth?	4	
Beth yw effaith Brexit?	5	
Chwalu hud y GDPR	6	
Pam ei fod yn bwysig cael pethau'n iawn ynghylch preifatrwydd data a'r GDPR		7
Rôl ein sefydliad ni a'ch sefydliad chi o dan y GDPR	7	
Beth allwch chi ei wneud i baratoi ar gyfer y GDPR?	7	
<b>CYNLLUN A DULL BLACKBOARD</b>	<b>9</b>	
Preifatrwydd a diogelwch yn Blackboard	9	
Dull Blackboard i ddelio â GDPR	10	
GDPR fel cyfle	10	
Ein cynllun gweithredu	11	
Trosolwg o'r newidiadau	12	
1. Cynhyrchion sy'n barod am y GDPR	13	
2. Preifatrwydd drwy ddyluniad	14	
3. Trosglwyddiadau data	15	
4. Contractau gyda chleientiaid	16	
5. Rheoli'n gwerthwyr	16	
6. Diogelwch	17	
Llywodraethu risg diogelwch gwybodaeth	17	
Nid y GDPR yn unig ...	18	
Asesiadau a mapiau ffyrdd aeddfedrwydd diogelwch	18	
<b>CASGLIAD</b>	<b>19</b>	
<b>ADNODDAU GDPR DEFNYDDIOL</b>	<b>19</b>	
Adnoddau swyddogol yr UE	19	
Deunydd Awdurdod Diogelu Data'r UE	19	
Canllawiau cwmniau cyfreithiol	19	
Sefydliadau eraill	19	
<b>RHAGOD O WYBODAETH</b>	<b>20</b>	
Ffynonellau	21	

Mae Blackboard wedi'i ardystio gan Privacy Shield, llofnodwr balch o Addewid Preifatrwydd Myfyrwyr ac aelod o Fforwm Dyfodol Preifatrwydd.



## GDPR - BETH SYDD ANGEN I CHI WYBOD

Y GDPR yw' deddfwriaeth newydd yr UE ar gyfer diogelu data a fydd yn disodli Cyfarwyddeb Diogelu Data 96/46 (Cyfarwyddeb) yr UE presennol a'r Deddfau Diogelu Data sy'n weithredol yn Aelod-wladwriaethau'r UE (e.e. Deddf Diogelu Data'r DU 1998).

Cafodd y GDPR ei ddeddfu ym Mai 2016 gyda dyddiad cydymffurfio o 25 Mai 2018.


Yn yr adrannau isod, rydym wedi darparu trosolwg cryno iawn (a ddim yn gynhwysfawr o bell ffordd) o ofynion y GDPR. Gallwch ddod o hyd i ddolenni i ganllawiau manylach yn yr adran "Adnoddau GDPR defnyddiol".

### Pam fod cyfraith newydd?

Roedd deddfwyr a rheoleiddwyr yn yr UE yn argyhoeddedig bod angen diweddarau'r Gyfarwyddeb i fynd i'r afael â'r diffyg cysondeb a datblygiadau cymdeithasol a thechnolegol yn yr 20 mlynedd ers y Gyfarwyddeb. Ar frig y rhestr roedd pwerau gorfodi cryfach, cyrhaeddiad tiriogaethol ehangach a hawliau gwell i unigolion.

Mae llawer o'r darpariaethau newydd (e.e. effaith all-tiriogaethol) wedi'u hanelu'n bennaf at gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwryd y tu allan i'r UE. Teimlai deddfwyr a rheoleiddwyr yr UE nad oedd y Gyfarwyddeb a oedd yn bodoli eisoes yn amddiffyn hawliau preifatrwydd data unigolion yr UE sy'n defnyddio gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwryd o'r fath yn ddigonol.

Mae Blackboard yn gweithredu'n wahanol i'r cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwryd hynny y mae eu model wedi'i adeiladu ar "foneteiddio" data defnyddwyr. Rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol<sup>2</sup> o'n cleientiaid yn ôl eu cyfarwyddyd ac i ddarparu ein cynnyrch a'n gwasanaethau iddynt hwy a'u defnyddwyr. Nid ydym yn casglu na defnyddio gwybodaeth bersonol i werthu'r wybodaeth hon neu i werthu hysbysebion. Rydym yn deall bod gwybodaeth bersonol yn cael ei roi yn ein gofal nii ac mae rhwymedigaethau ynghlwm wrth hyn. Felly, rydym yn rhannu diddordeb a chyfrifoldeb gyda'n cleientiaid wrth ddiogelu'r wybodaeth hon.



## Beth sy'n newydd?

Tra'n seiliedig ar egwyddorion a chysyniadau preifatrwydd data presennol yr UE, mae'r GDPR yn dod â newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn preifatrwydd data yn yr UE, gan gynnwys:

- Mwy o bwerau dirwyo hyd at 4% o drosiant byd-eang neu EUR 20 miliwn (p'un bynnag sy'n fwy)
- Cwmpas tiriogaethol estynedig i sefydliadau y tu allan i'r UE sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau i drigolion yr UE neu'n monitro preswylwyr yr UE
- Hysbysiad torri gorfodol i awdurdodau goruchwyllo o fewn 72 awr ar gyfer rheolwyr data<sup>3</sup>
- Gofynion llymach ynglŷn â chaniatâd
- Hawliau gwell i unigolion (gan gynnwys yr hawl i ddilead a hygludedd data)

Ond rhai o'r newidiadau pwysicaf yw'r egwyddorion newydd atebolrwydd a phreifatrwydd trwy ddyluniad. Mae'r egwyddorion hyn yn gofyn am lywodraethu a phrosesau preifatrwydd data effeithiol yn ogystal â dogfennau mwy manwl a chadarn ar sut mae sefydliad yn cydymffurfio â gofynion GDPR.

## Beth sy'n aros yr un peth?

Mae nifer o'r cysyniadau a'r diffiniadau yn y GDPR yn aros yr un fath neu'n debyg o gymharu â'r Gyfarwyddeb:

- Mae'r diffiniad o "ddata personol" (neu wybodaeth bersonol) yn aros yn fras yr un fath ond erbyn hyn mae'n benodol yn cynnwys cyfeiriadau IP, cwcis a dynodwyr dyfais
- Mae cysyniadau "rheolwr data" a "phrosesydd data" yn aros yr un fath (ond mae'r GDPR yn gosod cyfrifoldebau mwy uniongyrchol ar broseswyr data)<sup>4</sup>
- Mae egwyddorion sefydledig prosesu yn y Gyfarwyddeb (e.e. prosesu cyfreithlon a theg, cyfyngiad pwrpas, dim ond cadw data personol cyn belled ag y bo angen) yn cael eu cynnal
- Mae'r gofynion trosglwyddo data yn parhau i fod yr un fath yn gyffredinol: caniateir trosglwyddiadau data y tu allan i'r UE/AEE cyhyd â bod mecanwaith trosglwyddo data cymeradwy yn cael ei ddefnyddio (e.e. Privacy Shield yr UE-UDA neu "gymalau enghreifftiol")<sup>5</sup>

Mae'r lefel uwch o ddirwyon o dan y GDPR yn golygu bod diffyg cydymffurfiaid â'r egwyddorion a'r gofynion sy'n bodoli eisoes, megis cadw data personol yn unig gyn belled ag y bo angen neu gael mesurau diogelwch priodol yn eu lle, yn debygol o fod yn fwy peryglus.



## Beth yw effaith Brexit?

Bydd y GDPR yn uniongyrchol berthnasol yn y DU o 25 Mai 2018 tan 'Brexit' ar ddiwedd mis Mawrth 2019. Ond hyd yn oed ar ôl Brexit, bydd y GDPR yn gosod y safon ar gyfer y DU:

- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Mesur Diogelu Data'r DU 2017 (ar hyn o bryd yn y broses ddeddfwriaethol) sy'n gweithredu'r GDPR cyn ac ar ôl Brexit<sup>6</sup>
- Ar ôl Brexit, mae'r GDPR yn berthnasol yn uniongyrchol i sefydliadau'r DU sy'n cynnig nwyddau a gwasanaethau i drigolion yr UE neu'n eu monitro (ee prifysgolion y DU sydd wrthi'n recriwtio myfyrwyr yr UE)

Effaith ar drosglwyddiadau data o'r DU ac i'r DU:

- Mae'r UE wedi egluro bydd y DU yn cael ei ystyried yn "drydedd wlad" ar ôl Brexit, sy'n golygu nad yw'n cael ei hystyried yn wlad "gymwys (rhestr wen) ar gyfer trosglwyddiadau data bellach.
- Oni bai bod Comisiwn yr UE yn datgan bod y DU yn gymwys (e.e. fel rhan o fargen drosiannol), mae cytundebau trosglwyddo data neu fecanweithiau trosglwyddo data eraill yn angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol o'r UE i'r DU.
- I'r gwrthwyneb, mae angen i'r DU benderfynu pa wledydd y mae'n barnu eu bod yn gymwys (a fyddai'n debygol o gynnwys gwledydd yr UE a'r gwledydd a roddwyd ar y rhestr wen gan yr UE). Ar gyfer y gwledydd hynny nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys, bydd angen defnyddio mecanweithiau trosglwyddo data a gydnabyddir yn y DU (sy'n debygol yn debyg i fecanweithiau'r UE) ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol allan o'r DU.

## Chwalu hud y GDPR

Un nod y GDPR oedd rhoi mwy o eglurder trwy bresgripsiwn manylach. Fodd bynnag, mae llawer o agweddau o hyd i'r GDPR sydd yn agored i'w dehongli. Yn ogystal, mae cymhlethdod y GDPR wedi arwain at ddiffyg dealltwriaeth yn ogystal â datganiadau sydd wedi'u gorliwio. Mae hyn wedi creu llawer o fythau, ac rydym yn chwalu bri rhai ohonynt isod:<sup>7</sup>

### Myth 1: Mae angen caniatâd ar gyfer pob math o brosesu gwybodaeth bersonol

**Ffaith:** Dim ond un o nifer o seiliau cyfreithiol sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei brosesu (e.e. prosesu sy'n ofynnol ar gyfer perfformio contract neu ar gyfer 'diddordeb dilys' sefydliad) yw caniatâd. Mae'r bar am ganiatâd nawr wedi'i osod yn uchel iawn. Er enghraifft, oni bai fod gan yr unigolion ddewis rhydd iawn a gallant dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg heb unrhyw anfantais, ni chaiff ei ystyried yn ganiatâd dilys. Mewn llawer o senarios prosesu data, bydd seilweithiau cyfreithiol eraill yn fwy addas.<sup>8</sup>

### Myth 2: Mae'r cyfnod hysbysiad torri 72 awr yn berthnasol i'r gadwyn gyflenwi gyfan (hy o'r adeg y mae prosesydd neu is-brosesydd yn ymwybodol o'r toriad)

**Ffaith:** Mae'r GDPR yn mynnu bod proseswyr data yn hysbysu eu rheolwr data "heb oedi gormodol" mewn achos toriad data personol. Dim ond unwaith y bydd y prosesydd data wedi hysbysu'r rheolwr y mae'r cyfnod hysbysiad 72 awr ar gyfer y rheolwr data yn dechrau. Mae Gweithgor Erthygl 29 (WP29), y grŵp o awdurdodau diogelu data'r UE, wedi egluro yn eu canllawiau terfynol<sup>9</sup> bod "heb oedi gormodol" yn golygu hysbysiad "prydlon" (nid hysbysiad "ar unwaith" fel yr awgrymwyd mewn drafft blaenorol).

### Myth 3: Ni chaniateir trosglwyddiadau data y tu allan i'r UE/AEE neu dim ond gyda chaniatâd y cleient ar gyfer pob trosglwyddiad data

**Ffaith:** Yn gyffredinol, mae'r GDPR yn cadw'r gofynion trosglwyddo data presennol. Fel y cyfryw, caniateir trosglwyddiadau data os yw mecanwaith trosglwyddo data a gymeradwywyd gan yr UE megis Privacy Shield yr UE-UDA neu'r cymalau enghreifftiol a gymeradwywyd gan yr UE (cytundebau trosglwyddo data) yn weithredol. Mae gan Blackboard

y ddau ddull hyn ar waith i drosglwyddo gwybodaeth bersonol i gleientiaid yn gydymffurfiol.<sup>10</sup> Gan fod Blackboard yn gweithredu fel prosesydd data, mae angen cyfarwyddyd cyffredinol ar gyfer trosglwyddiadau data gan y cleient (sydd wedi'i gynnwys yn ein cytundeb prosesu data safonol), ond nid oes angen caniatâd y cleient ar gyfer pob trosglwyddiad data.

### Myth 4: Mae'r hawl i ddilead yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddileu'r holl ddata am unigolyn

**Ffaith:** Nid yw'r hawl newydd i ddilead yn "hawl i anghofio" absoliwt. Yn hytrach, mae'n hawl i gael data wedi'i ddileu os nad oes angen y data bellach ac mewn amgylchiadau eraill lle nad yw'r sefydliad yn bodloni'r gofynion GDPR. Os oes wir angen i sefydliad gadw'r data (er enghraifft oherwydd gofynion cadw cofnodion), yna nid oes angen i'r wybodaeth bersonol hon gael ei ddileu.

### Myth 5: Mae'r GDPR yn berthnasol i bob prifysgol sydd â myfyrwyr o'r UE

**Ffaith:** Nid yw cael myfyrwyr o'r UE wedi'u cofrestru yn ddigon i GDPR fod yn gymwys. Yn gyffredinol, mae'r GDPR yn gymwys i sefydliadau sydd wedi'u sefydlu yn yr UE. Mae hefyd yn berthnasol i brifysgolion y tu allan i'r UE, ond dim ond os ydynt yn cynnig nwyddau a gwasanaethau i unigolion yn yr UE neu'n monitro ymddygiad unigolion yn yr UE. I gyfri fel "cynnig gwasanaethau" mae angen rhywfaint o dargedu. Nid yw'r ffaith bod myfyrwyr yr UE wedi'u cofrestru yn ddigonol. Fodd bynnag, efallai y bydd y GDPR yn gymwys pan fydd prifysgolion wrthi'n targedu trigolion yr UE (e.e. ar gyfer cyrsiau ar-lein) neu wrthi'n recriwtio myfyrwyr yng ngwledydd yr UE. Mae'r meini prawf hyn yn agored i'w dehongli. Rydym yn argymhell bod cleientiaid yn cael eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

## GWEITHREDU'R GDPR

### Pam ei fod yn bwysig cael pethau'n iawn ynghylch preifatrwydd data a'r GDPR

Mae'r risg o ddirwyon trosiant byd-eang o 4% yn sicr yn rheswm pam mae llawer o sefydliadau wedi dechrau cymryd preifatrwydd data yn fwy difrifol. Ond credwn fod yr achos positif ar gyfer arferion preifatrwydd data da yr un mor gymhellol oherwydd bod preifatrwydd data yn hawl dynol ac mae cael arferion preifatrwydd data cadarn yn creu ymddiriedaeth.

Yn y gymdeithas heddiw mae gwybodaeth bersonol yn mhobman. Yn aml, gelwir gwybodaeth bersonol yn olew newydd yr economi. Rydym i gyd yn defnyddio gwasanaethau ar-lein ac yn trosglwyddo ein gwybodaeth bersonol. Ond mae astudiaethau di-ri yn dangos nad yw pobl yn ymddiried mewn sefydliadau o ran gwybodaeth bersonol. Mae yna deimlad bod unigolion wedi colli rheolaeth dros eu data. Mae deddfwyr a rheoleiddwyr yn ymateb i hyn. Mae'n debyg mai'r GDPR yw'r enghraifft fwyaf amlwg. Mae angen i sefydliadau (ail)ennill ymddiriedaeth yr unigolion. Mae arferion preifatrwydd data da yn allweddol i adeiladu'r ymddiriedaeth hon. Maent hefyd yn fantais gystadleuol. Yn olaf, maent hefyd yn helpu sefydliadau gydag arloesedd. Os yw myfyrwyr (a staff) yn ymddiried yn eich sefydliad, byddant yn fwy tebygol o rannu eu gwybodaeth a defnyddio offer newydd.

Gall cael preifatrwydd data yn anghywir brofi'n drychinebus. Mae toriadau data yn y newyddion yn rheolaidd. Yr hyn sy'n dilyn yw niwed i enw da, colli ymddiriedaeth unigolion a risg o hawliadau gan y rhai y mae eu data wedi cael ei gam-drin. Efallai na fydd yr awdurdodau diogelu data yn defnyddio dirwyon trosiant o 4% o'r dechrau, ond mae ganddynt lawer o offer gorfodi eraill ar gael iddynt a gallant orfodi sefydliadau i newid eu harferion data a gweithredu rhaglenni preifatrwydd data gydag archwiliadau allanol rheolaidd.

### Rôl ein sefydliad ni a'ch sefydliad chi o dan y GDPR

Mae'r GDPR yn cadw'r cysyniad o "rheolwr data" a "phrosesydd data". Mae'r cysyniad hwn yn hollbwysig wrth iddo bennu cyfrifoldebau a rhwymedigaethau sefydliadau a'u darparwyr gwasanaethau.

Ystyrir bod sefydliad yn rheolwr data os yw'n pennu "ystyr a dibenion" prosesu gwybodaeth bersonol, h.y. pam a sut y defnyddir gwybodaeth bersonol. Y prosesydd data ar y llaw arall yw'r sefydliad sy'n gweithredu ar ran y rheolwr data ac o dan ei gyfarwyddyd.

Ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Blackboard (e.e. Learn, Collaborate, Open LMS), ystyrir bod Blackboard yn brosesydd data a'n cleientiaid yw'r rheolwr data.

Mae'r GDPR yn gosod gofynion mwy uniongyrchol ar broseswyr data megis Blackboard. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o ofynion GDPR yn dal i fod yn berthnasol i reolwyr data (e.e. y cyfrifoldeb i hysbysu'r unigolion sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio, i gydymffurfio â cheisiadau unigolion am fynediad i'w data, hysbysiad torri gorfodol i awdurdodau diogelu data ac unigolion).

### Beth allwch chi ei wneud i baratoi ar gyfer y GDPR?

Bydd angen i bob sefydliad yng nghwmpas GDPR fod yn barod erbyn 25 Mai 2018. Dyma rai pethau allweddol y gall cleientiaid eu gwneud i baratoi eu hunain. Mae'r rhestr hon o gamau wedi'i seilio ar ein profiad ni ac nid yw'n bwriad iddo fod yn gynhwysfawr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgysylltu ag arbenigwyr preifatrwydd data i'ch helpu gyda'ch gweithrediad. Mae llawer o awdurdodau diogelu data hefyd wedi creu eu canllawiau ar sut i weithredu'r GDPR.<sup>11</sup>

Gobeithio y bydd gennych eisoes gamau 1-6 y tu ôl i chi ac rydych yng nghanol gweithredu eich cynlluniau gweithredu. Ond nid yw byth yn rhy hwyr i ddechrau. Hyd yn oed os ydych chi newydd ddechrau, gallwch chi weithredu'r newidiadau mwyaf hanfodol. Mae hefyd yn golygu y byddwch yn gallu dangos i'ch awdurdod diogelu data eich bod chi'n gweithio ar gynllun. Nid yw anwybyddu'r GDPR yn opsiwn.

### 1. Gwiriwch a yw'r GDPR yn berthnasol i'ch sefydliad

Os yw'ch sefydliad wedi'i sefydlu yn yr UE, yna mae'r GDPR yn berthnasol. Ond gall y GDPR hefyd fod yn berthnasol i sefydliadau y tu allan i'r UE.<sup>12</sup>

### 2. Sefydlwch brosiect GDPR

Dyluniwch a gweithredu prosiect penodol GDPR. Yn ddelfrydol bydd gennych gefnogaeth rheoli prosiect a chysylltiadau enwebedig a allant eich cefnogi ym mhob adran. Bydd y prosiect hwn yn cwmpasu holl adrannau eich sefydliad a bydd angen help arnoch chi.

### 3. Enwebwch arweinydd profiadol GDPR i reoli'r prosiect

Yn ogystal â bod yn arweinydd preifatrwydd data profiadol, dylai arweinydd y prosiect fod â digon o amser ac adnoddau ynghyd â mynediad i gefnogaeth allanol (e.e. cwmni cyfreithiol). Os yw'ch sefydliad yn awdurdod cyhoeddus a sefydlwyd yn yr UE, bydd angen i chi benodi Swyddog Diogelu Data hefyd.

### 4. Sicrhewch fod uwch reolwyr ar y cyd ac yn goruchwyllo

Mae gweithredu prosiect GDPR heb gefnogaeth, cyfeiriad a goruchwyliaeth yr uwch reolwyr yn anodd.

### 5. Adolygwch eich defnydd o wybodaeth bersonol a chynnal dadansoddiad bwllch

Deall ble a sut y defnyddir gwybodaeth bersonol a lle mae angen gwelliannau GDPR yw cam allweddol cyntaf y prosiect GDPR.

### 6. Datblygu cynlluniau gweithredu i gau bylchau

Mae'n debyg mai dyma'r rhan anoddaf o GDPR gan ei bod yn ofynnol cyfieithugofynion aml-lefel y GDPR yn gamau penodol ac ymarferol ar gyfer yr holl brosesau a systemau amrywiol.

### 7. Gweithredwch gynlluniau gweithredu

Mae' ymddiriedaeth yn dda, ond mae rheolaeth yn well yn yr achos hwn. Mae'r cam hwn yn ei gwneud yn ofynnol i olrhain cynlluniau gweithredu eraill i sicrhau eu bod yn bodloni eu terfynau amser.

### 8. Adolygwch eich gwerthwyr

O dan y GDPR rydych chi'n gyfrifol am eich gwerthwyr. Mae cael y darpariaethau cytundebol cywir yn eu lle yn bwysig, ond nid yn ddigonol. Mae angen i chi fod yn gyfforddus bod eich gwerthwyr yn bodloni gofynion GDPR ac yn gallu'ch cefnogi gyda'ch cydymffurfiaeth. Gofynnwch sut maen nhw'n gweithredu'r GDPR.

### 9. Arhoswch yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfreithiol/rheoliadol (Canllawiau Gweithgor Erthygl 29, Aelod-wladwriaethau sy'n gweithredu deddfau)

Mae gwybod y GDPR yn ddigon, iawn? Anghywir! Er bod y GDPR yn berthnasol yn uniongyrchol, mae holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn gweithredu cyfreithiau diogelu data atodol cenedlaethol. Mae'r rhain yn ofynnol i reoleiddio meysydd lle mae gan yr Aelod-wladwriaethau awdurdod deddfwriaethol (e.e. preifatrwydd data gweithwyr) neu lle mae'r GDPR yn caniatáu iddynt ddeddfu ymhellach (e.e. meini prawf ar gyfer DPOs a DPIAs). Yn ogystal, mae WP29 yn cyhoeddi canllawiau pwysig. Mae sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf yn heriol ond yn bwysig.<sup>13</sup>



## CYNLLUN A DULL BLACKBOARD

### Preifatrwydd a diogelwch yn Blackboard

Mae preifatrwydd a diogelwch data wedi bod yn flaenoriaeth allweddol Blackboard am amser hir. I ni, mae'r GDPR yn gyfle i gryfhau'n harferion preifatrwydd data presennol ymhellach.

Mae ein dull o ymdrin â phreifatrwydd data bob amser wedi canolbwyntio ar y cleient. Rydym yn deall yr heriau y mae ein cleientiaid yn eu hwynebu ac rydym am eich helpu gyda nhw.


Mae arferion preifatrwydd data da yn gofyn am arferion llywodraethu cadarn. Mae preifatrwydd a diogelwch data yn flaenoriaeth Bwrdd i Blackboard ac mae ein model llywodraethu (gweler isod) yn sicrhau bod uwch reolwyr yn goruchwyllo ac yn cefnogi ein hymdrechion preifatrwydd a diogelwch data.

Mae'r pwysigrwydd y mae Blackboard yn ei roi ar breifatrwydd a diogelwch data hefyd yn cael ei amlygu gan y ffaith bod ein Swyddog Preifatrwydd Byd-eang a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth<sup>14</sup> yn adrodd i Dîm Arweinyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol (gweler y siart sefydliadol isod)

<b>Lefel Bwrdd</b>	<b>Bwrdd Blackboard</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae preifatrwydd a diogelwch data yn flaenoriaeth i'r Bwrdd</li> <li>• Yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar reoli risg cydymffurfio, gan gynnwys preifatrwydd a diogelwch data</li> </ul>	
<b>Uwch Lefel Reoli</b>	<b>Pwyllgor Cydymffurfiaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwyliaeth draws-swyddogaeth dros risg cydymffurfio gan gynnwys preifatrwydd a diogelwch data</li> <li>• Aelodaeth uwch reolwyr, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol, Prif Swyddog Cyfreithiol, CFO, Swyddog Cydymffurfiaeth</li> </ul>	<b>Cyngor y CIO</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwyliaeth draws-swyddogaethol dros Dechnoleg Gwybodaeth Gorfforaethol (CIO) a risgiau cysylltiedig</li> <li>• Aelodaeth uwch reolwyr, gan gynnwys CIO, Swyddog Cydymffurfiaeth, ac aelodau o'r timau Adnoddau Dynol, Cyllid, Cymorth Cleientiaid, Marchnata a Chynnyrch</li> </ul>
<b>Lefel Waith</b>	<b>Cyngor Diogelwch Blackboard</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Goruchwyllo dros weithredu technolegau, polisiau a gweithdrefnau arloesol ac effeithlon yn ddiogel.</li> <li>• Aelodaeth: CISO, Penaethiaid Diogelwch Cynnyrch, Swyddog Cydymffurfiaeth, Swyddog Preifatrwydd Byd-eang</li> </ul>	<b>Gweithgor Rhaglenni Preifatrwydd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn cefnogi Rhaglen Preifatrwydd Data Byd-eang / Gweithredu GDPR</li> <li>• Aelodaeth: Swyddog Preifatrwydd Byd-eang, CISO, Swyddog Cydymffurfiaeth, PD, PM, Rheoli Risg Gwerthwyr</li> </ul>

## Preifatrwydd a Diogelwch

Mae'r pwysigrwydd y mae Blackboard yn ei roi ar breifatrwydd a diogelwch data hefyd yn cael ei amlygu gan y ffaith bod ein Swyddog Preifatrwydd Byd-eang a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yn adrodd i'r Tim Arweinyddiaeth Prif Swyddog Gweithredol.



## Dull Blackboard i ddelio â GDPR

Rydym wedi sefydlu prosiect cynhwysfawr i weithredu gofynion y GDPR gan ddefnyddio'r dull canlynol:

- Mae gweithredu GDPR yn adeiladu ar brofiad preifatrwydd data a mecanweithiau cydymffurfio presennol Blackboard
- Arweinir y broses GDPR gan y Swyddog Preifatrwydd Byd-eang ac fe'i cefnogir gan reolwr prosiect pwrpasol ac "arweinyddion GDPR" ym mhob ardal swyddogaethol
- Mae'r cwmni cyfraith adnabyddus, Bristows LLP, ymhlith nifer eraill, wedi bod yn cefnogi gweithrediad y GDPR
- Goruchwylir gweithredu'r GDPR gan Bwyllgor Cydymffurfiaeth Blackboard, sy'n cynnwys Prif Swyddog Gweithredol y cwmni, y Prif Swyddog Cyfreithiol, ac uwch swyddogion eraill

## GDPR fel cyfle

Rydyn ni'n ystyried y GDPR yn fwy nag ymdrech i gydymffurfio â gofynion preifatrwydd data newydd yr UE. Mae hefyd yn gyfle. Fel y cyfryw, ein nod yw defnyddio'r gweithrediad GDPR i gyflawni'r canlynol:

- Cryfhau arferion preifatrwydd data byd-eang – byddwn yn defnyddio'r prosiect GDPR i wella ein rhaglen preifatrwydd data byd-eang yn yr UE a thu hwnt
- Datblygu prosesau preifatrwydd trwy ddyluniad sy'n fwyfwy ymgorffori cydymffurfiaeth preifatrwydd data yn ein prosesau bob dydd
- Cefnogi ein cleientiaid gyda'u hymdrechion cydymffurfio â GDPR
- Rhoi Blackboard fel arweinydd preifatrwydd data cydnabyddedig ym maes Technoleg Addysg

## Ein cynllun gweithredu

Rydyn ni'n dilyn methodoleg 3-cham sefydledig Bristow LLP i weithredu ein rhaglen Preifatrwydd Data Byd-eang / GDPR. Mae'r fethodoleg hon yn cael ei defnyddio ar gyfer nifer o gwmnïau eraill, gan gynnwys cwmnïau technoleg blaenllaw. Mae'r tri cham allweddol fel a ganlyn:

- **CAM 1 - Casglu gwybodaeth**
- **CAM 2 - Datblygu atebion**
- **CAM 3 - Ffrydiau gwaith gweithredu**

Rydym wedi defnyddio'r fethodoleg 3-cham hon i ddatblygu ein rhaglen gyda'r pedwar cyfnod allweddol canlynol:

### Cychwyn y Prosiect

Roedd cam gychwyn y prosiect yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Briffio uwch reolwyr a sicrhau eu bod ar y cyd
- Cyflogi Swyddog Preifatrwydd Byd-eang gyda'r cyfrifoldeb i arwain y prosiect GDPR
- Datblygu cynllun prosiect a llywodraethu prosiectau
- Casglu gwybodaeth gychwynol ac asesu gweithgareddau cydymffurfio cyfredol ar gyfer meysydd y mae angen eu gwella o dan GDPR

### CAM 1 - Casglu Gwybodaeth (Gweithdai)

Yn ystod y cyfnod cychwynol hwn, gwnaethom gynnal sgysiau/gweithdai strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol o feysydd swyddogaethol a grwpiau cynnyrch Blackboard i gael gwybodaeth fanwl am arferion prosesu data yn yr ardaloedd hynny.

Defnyddiwyd allbwn y gweithdai i berfformio'r dadansoddiad bwllch a datblygu'r atebion a'r cynlluniau gweithredu yng ngham 2.

### CAM 2 - Datblygu atebion

Yn seiliedig ar y wybodaeth o'r gweithdai, datblygwyd yr atebion a'r dogfennau canlynol gennym:

- Dogfennaeth preifatrwydd mewnol gwell (polisi a safonau gweithredol manwl) sy'n adlewyrchu gofynion GDPR ac yn egluro sut y bydd yn rhaid bodloni gofynion GDPR ar gyfer y gwahanol weithgareddau prosesu data (e.e. gofynion ar gyfer prosesu data cleientiaid, proses preifatrwydd drwy ddyluniad)
- Gofynion cynnyrch
- Cynlluniau gweithredu ar gyfer y meysydd swyddogaethol ac ar gyfer ymdrechion sydd eu hangen yn ganolog


### CAM 3 - Ffrydiau Gwaith Gweithredu

Yn ystod y cam olaf, rydym yn gweithredu'r dogfennaeth preifatrwydd data sydd wedi'i datblygu ac yn gweithredu'r cynlluniau gweithredu. Defnyddir chwe phrif ffrwd gwaith i gyflawni'r gweithredu:

1. Gweithredu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y meysydd swyddogaethol a'r grwpiau cynnyrch
2. Adolygu a diweddarau polisiau, hysbysiadau a chaniatadau sy'n wynebu'r cyhoedd
3. Gwella llywodraethu (rolau a chyfrifoldebau, hyfforddiant, preifatrwydd trwy ddyluniad ac ati)
4. Adolygu a diweddarau contractau gwerthwyr (lle bo angen)<sup>15</sup>
5. Newidiadau systemau TG (lle bo angen)
6. Sefydlu cofrestr prosesu data

## Trosolwg o'r newidiadau

Mae'r siart isod yn dangos sut yr ydym yn rhagweld cyflwr terfynol ein rhaglen GDPR / preifatrwydd data yn dilyn y gweithgareddau gweithredu. Ar ôl gweithredu GDPR, byddwn yn parhau i arloesi ac addasu i aeddfedu ein harferion preifatrwydd data ymhellach.





## SUT BYDD EIN RHAGLEN GDPR YN EICH HELPU CHI?

Mae rhaglen Preifatrwydd Data Byd-eang / gweithredu GDPR Blackboard yn canolbwyntio ar gefnogi eich sefydliad gyda'ch gweithrediad o'r GDPR. Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi mwy o fanylion, ond yn gryno, y 7 pwynt allweddol yw:

1. **Cynhyrchion sy'n barod am y GDPR** Rydym yn gweithredu gofynion cynnyrch i gefnogi cleientiaid â gofynion tryloywder, ceisiadau hawliau unigol ac ati.
2. **Preifatrwydd drwy ddyluniad:** Rydym yn gweithredu proses preifatrwydd drwy ddyluniad a phroses Asesiad Effaith Gwarchod Data (DPIA) i hwyluso dogfennu cydymffurfiaeth
3. **Trosglwyddiadau data:** Byddwn yn parhau â'n dull aml-haenog: Rhanbartholi, Privacy Shield yr UE-UD a'r cymalau enghreifftiol a gymeradwywyd gan yr UE
4. **Contractau gyda chleientiaid:** Mae gennym atodiad prosesu data i'n prif gytundeb safonol sy'n barod ar gyfer y GDPR
5. **Ein gwerthwyr:** Mae gennym gontractau cadarn a fframwaith Rheoli Risg Gwerthwyr yn ei le
6. **Diogelwch:** Rydym wedi sefydlu polisi, gweithdrefnau a llywodraethu sy'n cael eu gwella'n barhaus i ddiogelu diogelwch data cleientiaid
7. **Hysbysiad torri:** Mae gennym broses Ymateb Digwyddiad Diogelwch wedi'i ddogfennu a'i brofi

### 1. Cynhyrchion sy'n barod am y GDPR

Mae cefnogi ein cleientiaid trwy wneud ein cynhyrchion yn barod ar gyfer y GDPR yn un o agweddau allweddol ein ffrydiau gwaith gweithredu. I'r perwyl hwnnw, gwnaethom lunio isafswm gofynion GDPR/preifatrwydd data ar gyfer ein cynnyrch. Yn unol â'n hymagwedd at gryfhau ein harferion preifatrwydd data yn fyd-eang, mae'r rhan fwyaf o'r gofynion hyn yn berthnasol i'n holl gynhyrchion, nid dim ond y cynhyrchion hynny rydym yn eu gwneud ar gael yn yr UE. Mae hyn hefyd yn cefnogi ein cleientiaid y tu allan i'r UE a allai fod yn rhan o gwmpas y GDPR.

Gwnaethom ddatblygu ein gofynion cynnyrch GDPR/preifatrwydd data trwy broses gadarn a dwys. Fe wnaethom ddrafftio fersiwn gychwynnol gyda chyngor allanol. Yn ystod sesiynau gwaith lluosog a diwygiadau gyda rhanddeiliaid allweddol o'n timau datblygu cynnyrch a rheoli cynnyrch, fe wnaethom fireinio'r fersiwn i ofynion cynnyrch cyffredinol penodol a gweithreduadwy gyda chanllawiau manwl. Yna, cyfieithwyd y gofynion cynnyrch GDPR/preifatrwydd data i gamau gweithredu cynnyrch-benodol yng nghynlluniau gweithredu'r cynnyrch ar gyfer pob grŵp cynnyrch.

Gellir categoraiddio ein gofynion cynnyrch<sup>16</sup> fel a ganlyn:

### Tryloywder

- Y gallu i gleientiaid gysylltu â'u polisïau/hysbysiadau preifatrwydd
- Rhoi gwybodaeth ar sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio mewn cynnyrch yn gyffredinol

### Lleihau/dileu data

- Adolygu cynhyrchion ar gyfer meysydd diangen / dewisol
- Adolygu cynhyrchion am gyfleoedd i ddefnyddio ffug ddata neu ddata ddiennw yn hytrach na gwybodaeth bersonol
- Y gallu i ddileu gwybodaeth bersonol pan fydd cleientiaid yn gofyn amdano (lle na all cleientiaid/defnyddwyr ddileu data eu hunain)

### Hawliau unigol cyffredinol

- Y gallu i ddarparu mynediad at a chywiro gwybodaeth bersonol pan ofynnir amdani gan unigolyn
- Y gallu i ddileu gwybodaeth bersonol pan ofynnir amdani gan unigolyn

### Hawliau unigol yr UE

- Y gallu i ddelio â cheisiadau hygludedd data (hawl unigolion i dderbyn data mewn fformat y gellir ei darllen mewn peiriannau mewn rhai amgylchiadau)
- Y gallu i roi'r gorau i ddefnyddio gwybodaeth bersonol (hawl i wrthwynebu / hawl i gyfyngu mewn rhai amgylchiadau)

Mae gan Blackboard raglenni diffiniedig eisoes ar gyfer ein diogelwch cynnyrch sy'n ystyried GDPR. Felly ni wnaethom ddiffinio gofynion diogelwch penodol GDPR ychwanegol.<sup>17</sup>

## 2. Preifatrwydd drwy ddyluniad


Gan ei fod yn dod yn fwy a mwy heriol y dyddiau hyn i unigolion gadw rheolaeth dros eu gwybodaeth (gweler ein post blog diwrnod [diwrnod preifatrwydd](#) ar y pwnc hwn), mae preifatrwydd trwy ddyluniad ac atebolrwydd yn dod yn fwyfwy pwysig i gynnal ymddiriedaeth unigolion, cleientiaid a rheoleiddwyr ac i ddogfenu sut mae sefydliad yn cydymffurfio â'r GDPR. Felly, rydym yn rhoi ein dull preifatrwydd trwy ddyluniad wrth wraidd ein rhaglen Preifatrwydd Byd-eang / GDPR.

Ar gyfer Blackboard mae hyn yn esblygiad yn hytrach na chwyldro. Rydym bob amser wedi cynnal adolygiadau cyfreithiol o gynhyrchion ac arferion newydd. Gyda'n dull preifatrwydd trwy ddyluniad, rydym yn ffurfioli ac yn dogfenu'r adolygiadau hyn yn well.

### Dull

- Fe wnaethom greu proses preifatrwydd trwy ddyluniad a rhestr wirio dogfenedig.
- Mae meysydd swyddogaethol a grwpiau cynnyrch yn cynnwys y rhestr wirio preifatrwydd trwy ddyluniad yn eu prosesau newid.
- Mae pob newid materol yn y modd y defnyddir gwybodaeth bersonol yn mynnu bod y rhestr wirio preifatrwydd trwy ddyluniad yn cael ei chwblhau. Er nad yw'n ofynnol yn benodol gan y GDPR, dyma'r arfer gorau.
- Bydd y rhestr wirio yn sbarduno'r Asesiad Effaith Diogelu Data mwy manwl (DPIA) ar gyfer defnydd rish uchel o wybodaeth bersonol (gofyniad GDPR)

Mae'r siart llif isod yn delweddu'r dull:



### 3. Trosglwyddiadau data

Nid yw'r GDPR yn dod ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r modd y gellir trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r UE/AEE. Mae'r cyfyngiadau cyfredol a mecanweithiau trosglwyddo data yn parhau. Golygir hyn y caniateir trosglwyddiadau data os yw mecanwaith trosglwyddo data a gymeradwywyd gan yr UE megis Privacy Shield yr UE-UDA neu'r cymalau enghreifftiol a gymeradwywyd gan yr UE (cytundebau trosglwyddo data) yn weithredol. Mae'r mecanweithiau hyn yn sicrhau bod gwybodaeth bersonol wedi'i ddiogelu'n ddigonol hyd yn oed wrth adael yr UE/AEE.

Byddwn yn parhau â'n hymagwedd aml-haenog a diangen tuag at cydymffurfriad â throsglwyddo data. Mae hyn yn golygu ein bod yn mynd i'r afael â'r gofynion trosglwyddo data trwy ffyrdd lluosog i sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith ar gyfer eich gwybodaeth:

- **Lletya rhanbarthol** Mae gennym strategaeth lletya ranbarthol gyda bron pob un o'r cynhyrchion wedi'u lletya yn yr UE a bwriedir symud chynhyrchion eraill i ddatrysiadau lletya rhanbarthol. Er nad yw' storio data'n rhanbarthol yn ofyniad y GDPR ac nid ydym o'r farn bod y broses o leoli data yn arwain at well preifatrwydd

neu ddiogelwch data,<sup>18</sup> rydym yn deall bod well gan lawer o gleientiaid yr UE gadw eu data yn yr UE.

- **Privacy Shield:** Mae Blackboard wedi'i ardystio gan **Privacy Shield yr UE-UDA** sy'n caniatáu i ni drosglwyddo data personol yn gyfreithlon i'r Unol Daleithiau.
- **Cymalau enghreifftiol:** Rydym hefyd yn defnyddio cytundebau "cymal enghreifftiol" a gymeradwywyd gan yr UE sy'n ein galluogi i drosglwyddo data personol yn gydymffurfio y tu allan i'r AEE o fewn grŵp cwmnïau Blackboard ("Cytundeb Trosglwyddo Data Cwsmer").
- **Gwerthwyr:** Mae contractau cadarn ar waith gyda gwerthwyr a phartneriaid (e.e., IBM, Amazon Web Services) i sicrhau bod gofynion trosglwyddo data (a rhwymedigaethau diogelu data eraill) yn cael eu trosglwyddo i'n gwerthwyr a'n partneriaid.

Ar hyn o bryd<sup>19</sup> mae gennym nifer o ganolfannau data rhanbarthol i gefnogi trin data yn yr UE ar gyfer ein cleientiaid yn yr UE:

- Lletya wedi'i rheoli (canolfannau data Blackboard): Canolfannau data yn Amsterdam (yr Iseldiroedd) a Frankfurt (yr Almaen).
- Lletya cwmwl (canolfannau data AWS): Rhanbarth AWS Frankfurt, Yr Almaen (eu-central-1).

Mae canolfannau data AWS yn bodloni lluo o ardystiadau a gofynion o ISO 27001 ac ISO 27018, i SOC2 ac yn cydymffurfio â GDPR yn ogystal â chydymffurfio â gofynion lleol megis C5 Yr Almaen ac IT-Grundschutz.<sup>20</sup>

Mae'n bwysig deall, er bod gwybodaeth bersonol o gleientiaid yn cael ei storio yn y canolfannau data hyn ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynhyrchion (gan gynnwys Learn 9.1, Learn SaaS, Open LMS a Collaborate) ar gyfer cleientiaid yr UE, efallai y bydd mynediad i'r data hwn o'r tu allan i'r UE/AEE yn ofynnol i ddarparu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau, e.e. am gymorth 24/7. Caniateir trosglwyddiadau data o'r fath, diolch i'r cymalau enghreifftiol ac ardystiad Privacy Shield yr UE-UD.

## 4. Contractau gyda chleientiaid

Mae'r Gyfarwydddeb presennol yn mynnu bod gan reolwr data contract ar waith gyda'r gwerthwr (prosesydd data), ond nid yw'n rhagnodi cynnwys y contract yn fanwl. Mae'r GDPR yn fwy rhagnodol ac mae'n cynnwys rhestr o'r cynnwys gofynnol.<sup>21</sup>

Mae ein hadendwm prosesu data safonol presennol yn cynnwys yr holl bwyntiau gofynnol isod. Fe'i cynhwysir yn awtomatig i gleientiaid ar ein prif gytundeb safonol sydd o fewn cwmpas y GDPR.

- ✓ Defnyddio data personol yn unig fel y cyfarwyddir
- ✓ Rhaid i staff lofnodi cytundebau cyfrinachedd
- ✓ Mae angen i fesurau diogelwch priodol fod yn eu lle
- ✓ Ymgysylltu gwerthwyr yn unig (is-broseswyr)
  - Fel y'i awdurdodwyd gan reolwr data (gall fod yn awdurdodiad cyffredinol)
  - Gofynnol yn gontractiol i ddilyn yr un rhwymedigaethau diogelu data
- ✓ Cynorthwyo rheolwr i ymateb i geisiadau hawliau unigol
- ✓ Cynorthwyo rheolwr gyda mesurau diogelwch, hysbysiadau torri ac asesiadau effaith diogelu data
- ✓ Dychwelyd neu ddileu data ar ddiwedd y contract
- ✓ Darparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i'r rheolwr data ddangos cydymffurfiaeth
- ✓ Rhoi gwybod i'r rheolwr data ar unwaith os oes unrhyw gyfarwyddiadau gan y rheolwr data yn torri GDPR

## 5. Rheoli'n gwerthwyr

Mae Blackboard yn defnyddio gwerthwyr (e.e., IBM, Amazon Web Services) i'n helpu i ddarparu ein cynnyrch a'n gwasanaethau i'n cleientiaid. Lle mae hyn yn gofyn am fynediad at wybodaeth bersonol ein cleientiaid, mae Blackboard yn gyfrifol am arferion preifatrwydd data y gwerthwyr.

Fel rhan o'n rhaglen GDPR, rydym yn cysylltu'n agos y dull preifatrwydd trwy ddyluniad gyda'r prosesau Rheoli Risg Gwerthwyr a Chaffael presennol. Mae hyn yn arwain at y rheolaethau allweddol canlynol:

- Contractau cadarn gydag Adendwm Preifatrwydd a GDPR ar waith gyda thrydydd partion sy'n gosod darpariaethau sy'n gyfatebol yn sylweddol sydd gennym ar waith gyda'n cleientiaid
- Cytundebau "cymal enghreifftiol" a/neu GDPR ac Adendwm Privacy Shield i alluogi trosglwyddiadau data cyfreithlon i'n gwerthwyr
- Polisi a fframwaith Rheoli Risg Gwerthwyr dogfenedig
- Mae angen i werthwyr newydd sydd â mynediad at wybodaeth bersonol lenwi Holiadur Asesu Diogelwch Gwerthwr gyda chwestiynau cydymffurfio â phreifatrwydd data
- Mae'n ofynnol i werthwyr sydd â mynediad i systemau a reolir gan Blackboard ddilyn polisiau rheoli mynediad a pholisiau hunaniaeth ac awdurdodi mewnol Blackboard, i gynnwys adolygiadau cyfrif fel bo'n briodol
- Mae angen i werthwyr gael mynediad i adnoddau Blackboard trwy mecanweithiau cymeradwy (e.e. VPN)
- Mae gan werthwyr reoliadau mynediad cyfyngedig ar draffig, defnyddwyr ac asedau



## 6. Diogelwch

Nid yw'r GDPR yn newid y mesurau technegol a gweithredol ("TOMs") yn sylweddol ar gyfer diogelwch gwybodaeth bersonol. Mae angen i'r mesurau hyn fod yn "briodol" i'r risg dan sylw fel o dan y Gyfarwyddeb gyfredol. Felly, rydym yn parhau i ddiwynnu ar ein rhaglenni diogelwch gwybodaeth sefydledig.

### Llywodraethu risg diogelwch gwybodaeth

Rydym wedi sefydlu polisi, gweithdrefnau, llywodraethu a gofynion technegol i reoli risg diogelwch TG ar draws y busnes.

O'r diwrnod cyntaf, mae'n rhaid i staff Blackboard ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu data personol y cleient:

- Cydnabod polisi i ddiogelu gwybodaeth sensitif
- Hyfforddiant diogelwch defnyddwyr a phreifatwydd data blynyddol
- Ymarferion gwe-rwydo
- Bwletinau ymwybyddiaeth

Mae'r gofynion canlynol yn eu lle ar gyfer diogelu data gan ein staff:

- Diffinnir dosbarthiadau data gyda gofynion i ddiogelu pob math o ddata. O'r sensitifrwydd uchaf yw data ein cleient - data'r sefydliadau a'u dysgwyr.
- Mae rheolaethau technegol ar waith i ddiogelu data, e.g .:
  - defnydd amgryptio
  - diweddariadau diogelwch prydlon
  - rheolaethau dilysu gwell
  - e-bost maleisus a diogelu traffig ar y we
  - technolegau amddiffyn pwynt terfyn
  - mynediad wedi'i gyfyngu yn seiliedig ar angen i wybod

### Nid y GDPR yn unig ...

Fel cwmni byd-eang, sy'n gwasanaethu'r gymuned addysg, rydym yn monitro'n fanwl cyfreithiau a rheoliadau preifatwydd a diogelwch data daearyddol a phenodol i'r sector addysg perthnasol.


Mae'r rhestr isod ond yn cynnwys rhai enghreifftiau o reoliadau diogelwch a phreifatwydd data, safonau a fframweithiau mae Blackboard yn eu hystyried yn ogystal â GDPR wrth ddatblygu ein polisiau, ein prosesau a'n rheolaethau technegol diogelwch.

- Deddf Teulu Hawl i Addysg a Phreifatwydd yr UD (FERPA), Gwelliant Gwarchod Hawliau Disgyblion (PPRA)
- Deddf Gwarchod Preifatwydd Plant Ar-lein yr Unol Daleithiau (COPPA)
- Cyfreithiau Wladwriaethau'r Unol Daleithiau (clytwaith 50-wladwriaeth sy'n bodoli ac sy'n dod i'r amlwg)
- Safonau Llywodraeth yr UD – FedRAMP
- Safonau Diogelwch Data PCI, lle bo'n berthnasol
- ISO/IEC, OWASP, NIST
- Safonau rhyngwladol (MTCS, IRAP)

### Asesiadau a mapiau ffyrdd aeddfedrwydd diogelwch

Rydym yn gweithio'n galed i wella ein mesurau diogelwch technegol a gweithredol yn barhaus. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos ein hasesiadau aeddfedrwydd parhaus a'n mapiau ffyrdd.

## Mabwysiadu Fframweithiau: Aseidiadau a Mapiau Ffyrdd Aeddfedrwydd Diogelwch



## 7. Hysbysiad torri

Un o newidiadau allweddol y GDPR yw'r hysbysiad gorfodol newydd o dorri data personol i'r awdurdod diogelu data cymwys ac (mewn rhai achosion) i'r unigolion yr effeithir arnynt.<sup>22</sup>

Ar gyfer y rhan fwyaf o'n cynnyrch a'n gwasanaethau, mae Blackboard yn brosesydd data<sup>23</sup> o dan y GDPR. Felly, byddai'r rhwymedigaeth i hysbysu awdurdodau diogelu data ac unigolion mewn achos o doriad sy'n cynnwys Blackboard yn gyfrifoldeb ein cleientiaid. Fodd bynnag, mae'r GDPR yn mynnu bod proseswyr data fel Blackboard yn hysbysu eu cleientiaid (rheolwyr data) heb oedi gormodol (hy "yn brydlon")<sup>24</sup> mewn achos o'r fath.

Mae gennym y mesurau canlynol ar waith sy'n cefnogi ein cleientiaid yn cwrdd â'u rhwymedigaethau pe bai toriad data personol yn Blackboard yn gysylltiedig â chleient:

- Proses Ymateb i Ddigwyddiad Diogelwch Blackboard (SIR)
  - Wedi'i ddogfennu a'i brofi'n rheolaidd
  - Yn hwyluso adnabod, ymchwilio ac adfer yn gyflym mewn achos digwyddiad
  - Yn caniatáu hysbysiadau prydlon i gleientiaid
  - Yn dibynnu ar y tîm ymateb i digwyddiad diogelwch sefydledig (sy'n cynnwys y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a'r Swyddog Preifatrwydd Byd-eang)
- Mae ein rhwymedigaeth i hysbysu cleientiaid yn brydlon wedi'i nodi'n benodol yn ein prif gytundeb safonol cyfredol ac adendwm diogelu data<sup>25</sup>

## CASGLIAD

Mae'r GDPR yn gofyn am newidiadau sylweddol gydag effaith y tu hwnt i'r dyddiad cydymffurfio o 25 Mai 2018. Gobeithiwn y gall y papur gwyn hwn gyfrannu at eich gweithrediad llwyddiannus o'r GDPR ac mae wedi dangos pa mor ddifrifol y mae Blackboard yn cymryd y GDPR a chydymffurfiaeth â phreifatrwydd data.

Mae'r adrannau nesaf yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol ac yn rhestru ein e-bost cyswllt os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth ar y papur gwyn hwn.

## ADNODDAU GDPR DEFNYDDIOL

Dim ond detholiad bach o'r deunydd defnyddiol sydd ar gael ar-lein yw'r adnoddau isod. Nid yw i fod i fod yn rhestr gynhwysfawr.

I gael dadansoddiad manwl ar sut mae'r GDPR yn berthnasol i chi, dylech hefyd ofyn am gyngor gan arbenigwyr. Mae'n bwysig dibynnu ar arbenigwyr profiadol diogelu data (e.e. o gwmni cyfreithiol o'ch dewis chi).

### Adnoddau swyddogol yr UE

- [Testun GDPR](#)
- [Canllawiau Gweithgor Erthygl 29](#)
- [Gwefan GDPR Comisiwn yr UE](#)

### Deunydd Awdurdod Diogelu Data'r UE

- Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y DU (ICO) [wefan GDPR](#) ardderchog gyda deunydd defnyddiol mewn iaith syml sy'n cael ei diweddarau'n gyson
- Mae gan Comisiynydd Diogelu Data Iwerddon (DPC) [dudalen benodol GDPR i sefydliadau](#)
- Mae'r CNIL Ffrangeg yn darparu peth deunydd [yn Saesneg](#) gan gynnwys meddalwedd rhad ac am ddim ar gyfer Asesu Effaith Preifatrwydd (a llawer mwy o ddeunydd yn Ffrangeg)
- Cynhyrchodd yr AEPD Sbaeneg [ganllaw i sefydliadau addysg](#) (PDF, yn Sbaeneg)

### Canllawiau cwmnïau cyfreithiol

- [Canllaw Bird & Bird i'r GDPR](#)
- [Traciwr deddfau Aelod-wladwriaethau Bird & Bird](#) (olrhain amrywiadau cenedlaethol GDPR)
- [Canllaw goroesi GDPR Linklaters](#) (PDF)
- [Llawlygr GDPR White & Case](#)

### Sefydliadau eraill

- Mae gan [JISC UK](#) adnoddau defnyddiol, digwyddiadau a diweddariadau blog ar GDPR
- Mae UCISA wedi cyhoeddi [dogfen arfer gorau](#) GDPR gyda chamau ymarferol ac astudiaethau achos
- Mae gan Gymdeithas Ryngwladol Gweithwyr Proffesiynol ym maes Preifatrwydd (IAPP) [gylchlythyr wythnosol](#) da (am ddim) ar ddatblygiadau preifatrwydd data Ewropeaidd
- Mae gan yr IAPP hefyd [drosolwg ddefnyddiol o ddarparwyr offer preifatrwydd data](#) (PDF)
- Mae gan Amazon Web Services [Ganolfan GDPR benodol](#)

## BYWGRAFFIADAU



### Stephan Geering

*Swyddog Preifatrwydd Byd-eang*

- Cyfrifoldeb byd-eang am gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd a diogelwch data
- Arwain rhaglen Preifatrwydd Data Byd-eang/GDPR
- Adrodd i'r Prif Swyddog Cyfreithiol; aelod o dîm Cyfreithiol Blackboard
- Wedi'i leoli yn Llundain

#### Cefndir Stephan:

- Cyfreithiwr / Dirprwy Gomisiynydd Diogelu Data mewn Awdurdod Diogelu Data canton yn Y Swistir (2002-2008)
- LLM yng Ngholeg Prifysgol Llundain (2008-2009)
- Cyfarwyddwr Cyswllt, Preifatrwydd Grŵp yn Barclays (2010-2012)
- Pennaeth Gweithrediadau Preifatrwydd Data Rhanbarthol EMEA yn Citigroup (2012-2014)
- Prif Swyddog Preifatrwydd EMEA ac APAC yn Citigroup (2014-2017)
- CIPP/E ardystiedig



### Rebecca McHale

Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth

- Arwain strategaeth ddiogelwch ar gyfer cynhyrchion a seilwaith
- Goruchwylio llywodraethu seiberdiogelwch Blackboard
- Adrodd i'r Brif Swyddog Cynnyrch
- Wedi'i lleoli yn Washington, D.C.

#### Cefndir Rebecca:

- Ymunodd â Blackboard yn 2016; cyfunodd timau diogelwch yn diweddar a rôl uchel trefnu diogelwch yn y cwmni
- MS Mathemateg Arbenigol a Raglenni Cyfrifiadureg yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain
- Ynghynt, Uwch Gyfarwyddwr Rhaglenni Seiber yn Novetta a CSRA yn gwasanaethu llywodraeth ur UD a chleientiaid masnachol – Adran y Wladwriaeth, Trafnidiaeth Gweinyddiaeth Diogelwch (TSA) a Chorfforaeth Yswiriant Adneuo Ffederal (FDIC)

## Ffynonellau

- 1 Gweler yr adran "Adnoddau GDPR defnyddiol" ar y diwedd i gael arweiniad manylach ar y GDPR.
- 2 Mae'n well gennym y term "gwybodaeth bersonol" i "ddata personol" ond rydym yn ei ddefnyddio gyda'r un ystyr a chwmpas â "data personol".
- 3 Y rheolwr data yw'r sefydliad sy'n pennu dulliau a phwrpasau prosesu data (sut a pham y defnyddir gwybodaeth bersonol).
- 4 Gweler yr adran Rôl ein sefydliad ni a'ch sefydliad chi o dan y GDPR."
- 5 Gweler yr adran "Chwalu hud y GDPR" isod i gael rhagor o fanylion ar drosglwyddiadau data.
- 6 Gweler "[Cyflwyniad i'r Bil Diogelu Data](#)" gan yr ICO ar gyfer trosolwg defnyddiol o'r bil.
- 7 Gweler hefyd postiadau blog ICO y DU ynghylch [mythau GDPR](#).
- 8 Gweler hefyd [Canllawiau P29 \(drafft\) ar Ganiatâd o dan Reoliad 2016/679 \(WP259\)](#) a chanllawiau'r ICO ar ganiatâd.
- 9 [Canllawiau WP29 ar Hysbysiad torri data personol o dan Reoliad 2016/679 \(WP250rev.01\)](#).
- 10 Gweler hefyd yr adran "Trosglwyddiadau Data".
- 11 Gweler, er enghraifft, Paratoi ar gyfer y GDPR - 12 cam i'w cymryd nawr (PDF) gan ICO y DU.
- 12 Gweler hefyd adran "Chwalu hud y GDPR".
- 13 Gweler yr adran "Adnoddau GDPR defnyddiol".
- 14 Am ragor o wybodaeth am y Swyddog Preifatrwydd Byd-eang a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth, gweler yr adran Bywgraffiadau.
- 15 Fel rhan o brosiect ardystio Privacy Shield yr UE-UD, rydym eisoes wedi cynnwys y darpariaethau contract GDPR angenrheidiol mewn llawer o'r contractau gyda'n gwerthwyr (is-broseswyr) sydd â mynediad at wybodaeth bersonol yr UE.
- 16 Sylwch nad yw pob un o'r gofynion cynnyrch yn berthnasol i bob cynnyrch. Er enghraifft, nid oes gan rai cynhyrchion rhyngwyneb defnyddiwr a fyddai'n caniatáu i gleientiaid gysylltu â'u polisiau/hysbysiadau preifatrwydd.
- 17 Gweler yr adran "Diogelwch" am ragor o fanylion.
- 18 Unwaith y bydd rhwydwaith neu system wedi'i gysylltu â'r rhyngwrwyd, nid oes gan leoliad ffisegol data fawr ddim o effaith ar fygythiadau diogelwch. Gweler papur gwyn "[Safbwynt Polisi AWS ar Breswylid Data](#)" (yn enwedig tudalennau 2 a 3) gan Amazon Web Services (AWS) ar gyfer dadleuon cymhellol yn erbyn lleoleiddio data.
- 19 O ddyddiad y ddogfen hon.
- 20 Gweler [Rhaflenni Cydymffurfiaeth AWS](#) ar gyfer y rhestr lawn o ardystiadau a chydymffurfiaeth cyfreithiol.
- 21 Art. 28(2)-(4) GDPR.
- 22 Art. 33 a 34 GDPR.
- 23 Am esboniad o rôl y prosesydd data, gweler yr adran "Rôl ein sefydliad ni a'ch sefydliad chi o dan y GDPR".
- 24 Gweler yr adran "Chwalu hud y GDPR" uchod i gael rhagor o fanylion ar amseru A phrosesu hysbysiad torri data personol.
- 25 Gweler hefyd yr adran "Contractau gyda chleientiaid".

### Blackboard.com

Hwallfrait © 2018. Blackboard Inc. Cedwir pob hawl. Mae Blackboard, logo Blackboard, Blackboard Web Community Manager, Blackboard Mobile Communications App, Blackboard Mass Notifications, Blackboard Social Media Manager, Blackboard Collaborate yn nodau masnach neu nodau masnach cofrestredig Blackboard Inc neu ei is-gwmnïau yn yr Unol Daleithiau a/neu wledydd eraill. Gall cynhyrchion a gwasanaethau Blackboard gael eu cwmpasu gan un neu fwy o'r Patentau UDA canlynol: 8,265,968; 7,493,396; 7,558,853; 6,816,878; 8,150,925